

Minutes of the **Planning and Amenities Committee** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday, 30 November 2015** at 6.30 p.m.

PRESENT: - Her Worship the Mayor, Councillor Mrs E Butler
The Deputy Mayor, Councillor Dewi Williams
Councillors: - M Shultan (Chairman) D Llewelyn C O'Neal
Mrs L Day Mrs J Marshall N Pickavance
Mrs J Forsyth R K Marshall G O Roberts
J Wynn Jones J Martin Colin King

Officer : Mr Ian Jones, Town Clerk/Finance Officer

129/15 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Councillors D Madge (ill health) D Hainge (ill health) and E H Williams (ill health).

130/15 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION

Councillor C O'Neal on Item 134/14 – Planning Applications – C15/0973/11/HY, and Item 134/15 Licensing Matters - Premises Licence, The Lounge Bar, 342 High Street, Bangor.

131/15 URGENT MATTERS

Election Result - The Town Clerk advised of the result for the Dewi Ward and formally introduced Councillor Colin Russell King who was the successful candidate. Councillor King had made his formal Declaration of Acceptance of Office and countersigned by the Clerk. Members of the Council congratulated Councillor King and formally welcomed him onto the City Council.

Bereavement – The Clerk advised Members of the death of former Councillor Frank Woodcock who's funeral service would be held at the Cathedral, Friday 4th December at 10.30am. It was noted that Her Worship the Mayor would be attending the funeral and Councillor Derek Hainge would pay tribute at the service.

132/15 PLANNING APPLICATIONS

RESOLVED: that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

C15/1081/11/LL Re-submission of a previous application to import inert materials in order to raise existing ground levels. Hen Iard Gychod Dickies, Beach Road, Bangor. **That observations on this be deferred until the next meeting following a public meeting regarding this application on 1st December.**

C15/0973/11/HY Application for the provision of a sign. 10 Ffordd Ainon, Bangor. **No objections.**

Declaration of Interest by Councillor C O'Neal who left the Chamber during the discussion of this application.

C15/1142/11/MG Reserved matters application for the demolition of the existing building together with the erection of a 3 storey building containing 9 flats. Plasllwyd, High Street, Bangor. **No objections.**

C15/1151/11/HD Prior notification of intention to demolish building. Railway Institute, Euston Road, Bangor. **The City Council object to this proposal which would result in a loss of a very important and attractive building within the City. However, should the development proceed, the City Council would ask that the shell and façade of the building be preserved in any new development thereon.**

Councillor Mrs J Marshall, as a Member of the Gwynedd Council Planning Committee, did not vote and took no part in the discussion on any of the above applications apart from the applications within her own Ward.

133/15 HIGHWAY MATTERS

Beicio Bangor – Bangor Schools Link Proposal – Members considered details and proposals as contained within a document the Council had received from Beicio Bangor as part of their consultation on a cycle route through the centre of Bangor.

Members noted the detail contained within the documentation and after a brief discussion on the benefits and dis-benefits of the proposal it was decided not to make a formal response to the consultation at this point in time.

RESOLVED that representatives of Beicio Bangor be invited to give a presentation to a future meeting of the Committee in order to make a better informed judgement in this matter.

134/15 LICENSING MATTERS

Licensing Act 2003 - Premises Licence – The Lounge Bar Bangor Ltd, 342 High Street, Bangor. **No objections as the hours were consistent with other local Nightclubs in the area.**

Declaration of Interest by Councillor C O'Neal who left the Chamber during the discussion of this application

Licensing Act 2003 - Premises Licence – Costcutter, 90 Penrhyn Avenue, Bangor. Members expressed grave concern at the proposed opening hours for the off licence sales and the problems of anti-social behaviour in the area. **RESOLVED** that the City Council object to this application on the grounds that the opening hours are far too long.

135/15 INTENDED DEMOLITION

Section 81- Building Act 1984 - The Coach House, Belmont Road, Bangor – Members received a copy of the Notice which was understood had received planning application approval for a replacement property. **RESOLVED** that the notice be noted.

The Meeting closed at 7.20 p.m.

CHAIRMAN

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Dydd Llun, 30 o Dachwedd, 2015** am 6.30 y.h.

PRESENNOL :-

Ei Theilyngdod y Maer y Cynghorydd Mrs E Butler			
Y Dirprwy Faer y Cynghorydd Dewi Williams			
Y Cynghorwyr	M Shultan (Cadeirydd)	D Llewelyn	C O'Neal
	Mrs L Day	R K Marshall	N Pickavance
	J Forsyth	Mrs J Marshall	G O Roberts
	J Wynn Jones	J Martin	Colin King

Swyddog : Mr Ian Jones, Clerc y Dref/Swyddog Cyllid

129/15 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddiwrth y Cynghorwyr D Hainge (gwaeledd), D Madge (gwaeledd) a E H Williams (gwaeledd).

130/15 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Y Cynghorydd C O'Neal ar Eitem 134/14 – Ceisiadau Cynllunio – C14/1042/11/LL ac Eitem 134/15 Materion Trwyddedu – Trwydded Safle, The Lounge Bar, 342 Stryd Fawr, Bangor.

131/15 MATERION BRYD

Canlyniad Etholiad – Hysbysodd Clerc y Dref y canlyniad yn Ward Dewi a chyflwynodd yn ffurfiol y Cynghorydd Colin Russell King, yr ymgeisydd llwyddiannus. Gwnaeth y Cynghorydd King ei Ddatganiad ffurfiol yn Derbyn y Swydd ac fe'i cyd-lofnodwyd gan y Clerc. Llongyfarchodd Aelodau'r Cyngor y Cynghorydd King a'i groesawu'n ffurfiol ar Gyngor y Dref.

Profedigaeth - Soniodd y Clerc wrth yr Aelodau am farwolaeth y cyn Gynghorydd Frank Woodcock a dywedodd fod yr angladd yn cael ei gynnal yn y Gadeirlan, ddydd Gwener 4 Rhagfyr am 10.30am. Nodwyd y byddai Ei Theilyngdod y Maer yn mynd i'r angladd ac y byddai'r Cynghorydd Derek Hainge yn rhoi teyrnged yn y gwasanaeth.

132/15 CEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD : Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

C15/1081/11/LL Ail gyflwyniad o gais blaenorol i fewnforio deunydd anadweithiol er mwyn codi lefelau tir presennol. Hen Iard Gychod Dickies, Ffordd y Traeth, Bangor. **Penderfynwyd gohirio rhoi sylwadau ar hwn tan y cyfarfod nesaf, yn dilyn cyfarfod cyhoeddus am y cais ar 1 Rhagfyr.**

C15/0973/11/HY Cais i osod arwydd. 10 Ffordd Aion, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd C O'Neal a adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais uchod.

C15/1142/11/MG Cais materion a gadwyd yn ôl ar gyfer dymchwel adeilad presennol ynghyd â chodi adeilad newydd 3 llawr yn darparu 9 fflat. Plasllwyd, Stryd Fawr, Bangor. **Dim gwrthwynebiad.**

C15/1151/11/HD Rhybudd ymlaen llaw o fwriad i ddymchwel adeilad. Railway Institute, Euston Road, Bangor. **Mae Cyngor y Ddinas yn gwrthwynebu'r cynnig hwn a fyddai'n arwain at golli adeilad pwysig iawn a deniadol o fewn y Ddinas. Fodd bynnag, pe bai'r datblygiad yn mynd rhagddo, byddai Cyngor y Dref yn gofyn fod muriau ac wyneb yr adeilad yn cael eu cadw mewn unrhyw ddatblygiad wedi hynny.**

Ni chymrodd y Cynghorydd Mrs J Marshall, sydd yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd, ran yn y drafodaeth ar y ceisiadau uchod na phleidleisio arnynt heblaw am y ceisiadau yn ei Ward ei hun.

133/15 MATERION PRIFFYRDD

Beicio Bangor - Cynnig Cyswllt Ysgolion Bangor - Bu'r Aelodau'n ystyried y manylion a'r cynigion fel ag yr oeddent mewn dogfen a dderbyniodd y Cyngor gan Beicio Bangor fel rhan o'u hymgyngoriad ar lwybr beicio drwy ganol Bangor.

Nododd yr Aelodau'r manylion oedd yn y dogfennau ac wedi trafodaeth fer ar fanteision ac anfanteision y cynnig, penderfynwyd peidio â rhoi ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD gwahodd cynrychiolwyr o Beicio Bangor i roi cyflwyniad yn un o gyfarfodydd nesaf y Pwyllgor er mwyn gallu gwneud penderfyniad mwy cytbwys ar y mater hwn.

134/15 MATERION TRWYDDEDU

Deddf Trwyddedu 2013 – Trwydded Safle - The Lounge Bar Bangor Ltd, 342 Stryd Fawr, Bangor – **Dim gwrthwynebiad gan fod yr oriau'n cyd-fynd â Chlybiau Nos eraill yn yr ardal.**

Datganiad o ddiddordeb gan y Cynghorydd C O'Neal a adawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth ar y cais uchod.

Deddf Trwyddedu 2013 – Trwydded Safle – Costcutter, 60 Penrhyn Avenue, Bangor. Mynegodd yr Aelodau bryder difrifol am yr oriau agor a gynigir i'r gwerthiannau all-drwydded a phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. **PENDERFYNWYD** y byddai Cyngor y Ddinas yn gwrthwynebu'r cais hwn ar y sail fod yr oriau agor yn llawer rhy hir.

135/15 BWRIAD I DDYMCHWEL

Adran 81, Deddf Adeiladu 1984 - The Coach House, Ffordd Belmont, Bangor - Derbyniodd yr Aelodau gopi o'r Hysbysiad a oedd wedi cael cymeradwyaeth cais cynllunio ar gyfer eiddo newydd. **PENDERFYNWYD** nodi'r hysbysiad.

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.20 y.h.

CADEIRYDD